# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2229 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 11/12/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Anne-Louise Clark (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2913 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 2914 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorydd G. Collier<br>Cynghorydd M. Cross<br>Cynghorydd C. Meredith<br>Cynghorydd L. Parsons<br>Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol |

| Item ID | 2915 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 2916 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 4099 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys – 1 Ebrill 2020 i 30 Medi 2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar weithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2020/21.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy'n rhoi cyfle i Aelodau graffu ar weithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod dan bwerau a ddirprwywyd i'r Prif Swyddog Adnoddau yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2020 yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA. Er yr hinsawdd ariannol yng nghyswllt y pandemig, dywedodd y Prif Swyddog fod yr Awdurdod wedi perfformio'n dda yn nhermau gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ac amlinellodd y gwaith a wnaethpwyd fel y manylir yn yr adroddiad.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y cafodd taliadau llog eu gostwng cyn belled ag sy'n bosibl gyda chyfradd log gyfartalog o 0.67% yn is na'r gyfradd meincnod sy'n dangos perfformiad da. Nid oedd y Cyngor ychwaith wedi bod yn agored i unrhyw golledion ariannol fel canlyniad i'r hinsawdd economaidd anodd presennol. |

| | |
|---|---|
| | Ar y pwynt hwn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau/sylwadau gan Aelodau.<br><br>Gofynnodd Aelod os yw'r Awdurdod yn dal i fuddsoddi mewn tanwydd ffosil a chadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau nad oedd unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol gyda chwmnïau tanwydd ffosil. Nododd y Prif Swyddog drafodaethau blaenorol a dywedodd fod y gronfa pensiwn wedi newid y strategaeth i symud ymaith o fuddsoddiadau mewn tanwydd ffosil ac mae strategaeth buddsoddiadau'r Cyngor yn cael ei hadolygu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2. Craffodd aelodau ar y gweithgaredd rheoli trysorlys a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2020/201 ac ni roddwyd unrhyw sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn. |

| Item ID | 4100 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 01/04/2019 - 31/03/2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu a herio gwybodaeth ac argymhellion i liniaru pryderon a risgiau ar berfformiad yr Awdurdod ar iechyd a diogelwch a diogelwch tân yn y gwaith.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y byddai'r adroddiad fel arfer yn cael ei gyflwyno yn ystod cyfnod mis Gorffennaf i fis Medi, fodd bynnag cafodd ei ohirio oherwydd yr ymateb argyfwng i'r pandemig. Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu a herio argymhellion a wnaed i liniaru pryderon a risgiau ar berfformiad yr Awdurdod ar iechyd a diogelwch a diogelwch tân yn y gwaith ar gyfer 2019/20. Ychwanegodd y Swyddog fod y perfformiad drwyddo draw yn dda ac y rhoddir manylion y canfyddiadau hyn yn Atodiad 1 yr adroddiad.<br><br>Mae'r Atodiad yn amlinellu perfformiad da ynghyd â meysydd o gonsyrn a chamau i gael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Ychwanegwyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys unrhyw ymateb iechyd a diogelwch i'r ymateb argyfwng i bandemig Covid-19. Byddai'r wybodaeth hon yn rhan o'r adroddiad yn adolygu 2020/2021.<br><br>Cyfeiriodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol at yr adroddiad a chywiriad o'r ffigurau ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol – bu 50 damwain, gostyngiad ar y flwyddyn flaenorol.<br><br>Nododd y Pwyllgor yr wybodaeth yn unol â hynny.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1. Cefnogodd aelodau'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yr adroddiad manwl a'r camau a argymhellwyd i liniaru meysydd o gonsyrn. |

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 4101 |
|---|---|
| Item Title | Paratoadau ar gyfer Trosiant o'r Undeb Ewropeaidd |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau a'r Swyddog Polisi a gyflwynwyd i roi diweddariad i Aelodau ar y gwaith paratoi a wnaethpwyd yn ystod cyfnod trosiant yr Undeb Ewropeaidd.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau am yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y gwaith paratoi a wnaethpwyd yn ystod cyfnod trosiant yr Undeb Ewropeaidd. Nododd y Swyddog fod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020 a dechrau ar gyfnod trosiant tan 31 Rhagfyr 2020. Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau fod lefel o ansicrwydd yn parhau i fod ar y goblygiadau llawn y byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ei gael ar awdurdodau lleol. Roedd y Grŵp Cynllunio Swyddogion Craudd wedi parhau i gwrdd yn ystod y pandemig i hwyluso paratoadau trosiant o'r Undeb Ewropeaidd a derbyniwyd gwybodaeth reolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y darlun cenedlaethol cyffredinol. Ychwanegodd y Swyddog fod gwybodaeth gan y Swyddfa Gartref ar gynllun preswylio sefydlog yr Undeb Ewropeaidd hefyd yn dod i law ac y caiff yr Awdurdod Lleol ei gynrychioli ar rwydwaith Cydlynu Brexit Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau fod y grŵp cynllunio swyddogion craidd wedi datblygu asesiad effaith a risg i ddynodi ac ymateb i'r risgiau a chyfleoedd lleol yn gysylltiedig gyda gadael yr Undeb Ewropeaidd. Sefydlwyd cynllun gweithredu ar gyfer Blaenau Gwent sydd wedi'i gysylltu gyda'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad ymhellach a rhoddodd drosolwg manwl o'r gweithgareddau allweddol, deilliannau cyhoeddus disgwyliedig a blaengynllunio fel y manylir yn yr adroddiad.<br><br>Ar y pwynt hwn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn am y goblygiadau ariannol, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y cynlluniwyd ar gyfer y senario achos gwaethaf gan nad yw'r Awdurdod yn gwybod am y cytundeb y byddid yn ei gael. Ychwanegodd y Swyddog fod y senarios wedi ei seilio ar dystiolaeth hysbys a gwybodaeth a gasglwyd. Rhagwelir y caiff canlyniad y cytundeb ei deimlo mewn camau.<br><br>Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr Awdurdod yn ansicr am yr effaith ar fusnesau lleol na'r effaith ariannol, fodd bynnag byddai unrhyw oblygiadau yn y tymor canol a byddent yn cael eu monitro. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y |

| | |
|---|---|
| | gronfa rhannu ffyniant yn fater allweddol i'r Awdurdod. Caiff hyn ei rannu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, felly mae'n bwysig sicrhau fod democratiaeth leol.<br><br>Nododd Aelod arall bwysigrwydd gorgyffwrdd prosiectau a gyllidwyd drwy Ewrop y byddai angen eu parhau.<br><br>Ychwanegodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y byddid yn rhoi'r holl wybodaeth hon fel y mae'n datblygu drwy adroddiadau i'r Pwyllgor hwn.<br><br>Gofynnodd Aelod os byddai grwpiau'n gweithio o fewn cymunedau.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau fod grwpiau yn gweithio o fewn ein cymunedau. Mae'r Grŵp Cynllunio Swyddogion Craidd yn cefnogi unigolion i gymryd rhan yn y cynllun preswylio sefydlog drwy grwpiau cymunedol, gosodiadau addysg a hefyd gefnogaeth ddigidol drwy lyfrgelloedd.<br><br>Ychwanegodd y Swyddog Polisi fod 980 o ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio Sefydlog fel ar 30 Medi 2020. Y dyddiad cau oedd 30 Mehefin 2021 a byddai'r gwaith yn parhau i sicrhau fod pobl wedi cofrestru.<br><br>Roedd Aelod arall yn rhagweld y gallai'r adroddiad nesaf roi cyfleoedd i Flaenau Gwent a dywedodd y Swyddog mai rhan o waith y Gweithgor Swyddogion Craidd oedd edrych am gyfleoedd a deall ble maent ac unrhyw risgiau cysylltiedig.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod trosiant a sylwadau penodol neu argymhellion cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol ei gymeradwyo a derbyn adroddiadau yn diweddaru fel rhan o'i flaenraglen gwaith. |

| Item ID | 4102 |
|---|---|
| Item Title | Monitro Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a gyflwynwyd i Aelodau ystyried perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu gyda ffocws ar effaith y strategaeth yn ystod pandemig COVID-19 o fis Mawrth i fis Medi 2020.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Masnachol am yr adroddiad sy'n amlinellu perfformiad ac effaith y Strategaeth Cyfathrebu yn ystod pandemig COVID-19 ac amlinellodd y pwyntiau allweddol a gynhwysir yn yr adroddiad.<br><br>Nododd Aelod waith ardderchog y Tîm Cyfathrebu, fodd bynnag roedd wedi gweithio y byddai Arweinydd y Cyngor wedi bod yn fwy rhagweithiol. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd yr Aelod y rhoddwyd sylw i arweinwyr awdurdodau cyfagos mewn adroddiadau newyddion yn ystod y pandemig, er na welwyd Arweinydd Cyngor Blaenau Gwent yn y cyfnod digynsail yma. Ychwanegodd yr Aelod ei bod yn bwysig fod yr Arweinydd yn rhoi negeseuon allweddol i sicrhau fod gan ein cymunedau hyder yn y Cyngor ac yn medru rhoi enw ar yr wyneb.<br><br>Teimlai'r Cadeirydd na fu unrhyw reswm dros i Arweinydd y Cyngor gymryd rhan mewn adroddiadau newyddion. Cyfeiriodd yr Aelod at y nifer uchel o achosion COVID-19 ym Mlaenau Gwent a holodd os nad oedd hyn yn rheswm i Arweinydd y Cyngor annerch ein preswylwyr, fel y gwnaeth arweinwyr eraill ym Merthyr Tudful, Casnewydd, Torfaen a Rhondda Cynon Taf.<br><br>Cytunodd Aelod arall gyda'r sylwadau a wnaed a dywedodd nad oedd yn ymwneud ag ymddangosiadau teledu yn unig ond hefyd am gyfweliadau radio ac erthyglau papur newydd. Credai'r Aelod fod hyder y cyhoedd yn hollbwysig yn y cyfnod ansicr hwn ac er bod gwaith y Tîm Cyfathrebu yn rhagorol, mae angen mewnbwn gwleidyddol. Mae'n well gan y cyhoedd weld sylwadau o safbwynt gwleidyddol ac nid llefarydd ar ran y Cyngor.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, nodi perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu, yn neilltuol ar effaith y strategaeth yn ystod pandemig COVID-19. Y cyfnod dan sylw fydd mis Mawrth i fis Medi 2020. |

| Item ID | 4103 |
|---|---|
| Item Title | Monitro Perfformiad Strategaeth Fasnachol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a gyflwynwyd i Aelodau ystyried perfformiad y Strategaeth Fasnachol a chanolbwyntio ar effaith y strategaeth ar y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, a nodi perfformiad y Strategaeth Fasnachol yn ystod cyfnod mis Mawrth 2020 – mis Medi 2020. |

| Item ID | 4104 |
|---|---|
| Item Title | Perfformiad Absenoldeb Salwch |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu a herio perfformiad absenoldeb salwch ar gyfer 2019/20.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol fod yr adroddiad yn rhoi cyfle i Aelodau graffu a herio perfformiad absenoldeb salwch ar gyfer 2019/20. Mae hefyd yn amlinellu'r camau gweithredu parhaus i gefnogi gwelliant |

mewn presenoldeb ac yn cydnabod presenoldeb cadarnhaol mwyafrif y gweithlu.

Ychwanegodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol mai'r ffigur alldro cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y Cyngor yw 13.91 diwrnod fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn oedd yn 13.48 diwrnod ac eithrio salwch Covid-19. Roedd hyn yn gynnydd o all-dro y flwyddyn flaenorol o 12.66 diwrnod ac yn uwch na'r targed a osodwyd o 11 diwrnod. Rhoddir manylion pellach am yr wybodaeth yn yr atodiadau i'r adroddiad. Cyfeiriodd y Swyddog ymhellach at fesurau hanesyddol a gafodd eu gweithredu i wella presenoldeb a mesurau parhaus mewn ymgais i fynd i'r afael â phresenoldeb.

Cododd Aelod bryderon am y cynnydd parhaus mewn salwch o fewn yr Awdurdod a chyfeiriodd at waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen nad yw wedi gweld fawr o welliant yn y ffigurau. Fodd bynnag, er fod pandemig a fyddai'n effeithio ar lefelau salwch, teimlid fod lefelau salwch yn parhau'n uchel iawn ar draws y Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y cafodd y polisi ei adolygu'n sylfaenol a daeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r casgliad ei fod yn addas i'r diben. Mae system adnoddau dynol iTrent yn rhoi gwybodaeth fanwl i reolwyr i'w galluogi i reoli absenoldeb salwch.
Mewn ymateb i bryderon pellach am lefelau salwch a pherfformiad, dywedwyd y caiff yr wybodaeth ei chyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol bob chwarter ac yn rhan o'r adroddiad Perfformiad a Chyllid a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol bob chwarter.

Codwyd cwestiwn pellach am fonitro lefelau salwch adrannau unigol. Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y bydd pob Cyfarwyddiaeth yn adolygu'r 20 uchaf o achosion. Y llynedd cafodd adroddiadau eu hystyried yn y Pwyllgorau Craffu perthnasol gydag adroddiad cynhwysfawr i'r Pwyllgor Gweithredol.

Holodd Aelod os gallai Blaenau Gwent gydweithio gydag Awdurdod cyfagos i ganfod sut maent yn trin lefelau salwch. Cadarnhawyd y gwnaed y gwaith hwn fel rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Mewn ymateb i gais i ddod ag adroddiadau pellach drwy'r broses wleidyddol, nodwyd fod yr Awdurdod yn ymateb i Covid-19 ar hyn o bryd ac y byddai capasiti yn ystyriaeth.

CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, bod y Pwyllgor Craffu wedi craffu'r wybodaeth perfformiad absenoldeb salwch a'r camau gweithredu cyfredol i gefnogi gwella presenoldeb o fewn y Cyngor i ddynodi unrhyw feysydd pellach ar gyfer gwelliant er mwyn sicrhau gwelliant perfformiad.

| Item ID | 4117 |
|---|---|
| Item Title | Strategaeth Ariannol Tymor Canol 2021/2022 i 2025/2026 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a gyflwynwyd i Aelodau i gael cymeradwyaeth i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a rhoi'r asesiad diweddaraf i Aelodau ar sefyllfa ariannol y Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg manwl o'r pwyntiau allweddol a amlinellir yn yr adroddiad a'r atodiadau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, fel sy'n dilyn:-<br>• ystyried a chytuno ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol;<br>• nodi'r bwlch cyllid a ragwelir am gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canol;<br>• nodi'r pwysau cost a ddynodwyd yn Atodiad 1 y Strategaeth Ariannol Tymor Canol;<br>• nodi'r diweddariad cynnydd o fewn yr Adolygiadau Busnes Strategol a roddir yn Atodiad 2 y Strategaeth Ariannol Tymor Canol. |

| Item ID | 4105 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 22 Ionawr 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol.<br><br>Gofynnodd Aelod am i adroddiad ar ffioedd ymgynghori gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol. Dywedwyd fod y Pwyllgor Craffu Adfywio wedi gofyn am hyn ac y cytunwyd iddo. Fodd bynnag, teimlai'r Aelod gan mai mater corfforaethol yw hwn y dylai'r adroddiad cynhwysfawr gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Corfforaethol. Gwyddai'r Aelod fod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi gofyn am adroddiad, felly awgrymwyd bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol gydag adroddiad cynhwysfawr i'r Pwyllgor Gwasanaethau Corfforaethol.<br><br>Cytunodd y Prif Swyddog Adnoddau gyda'r llwybr gweithredu hwn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at adroddiadau cynnydd CCTV a nodwyd na chafodd ei gynnwys yn y Flaenraglen Gwaith. Dywedodd y Prif Swyddog y caiff yr adroddiadau hyn eu cynllunio ar y Flaenraglen Gwaith, fodd bynnag caiff ei gyflwyno yn nes ymlaen yn y flwyddyn ac nid yn y cyfarfod ym mis Ionawr.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol i'r uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfarfod 22 Ionawr 2021, fel y'i cyflwynwyd. |